Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Federation of Young Farmers Clubs

SIARAD CYHOEDDUS

CYMRAEG

Dydd Sadwrn 14eg Ionawr

2012

Dyddiad Cau

14-12-2011

RHEOLAU DARLLEN IAU CYMRAEG

1.	**LLEOLIAD** - Ysgol Gynradd Nantgaredig
2.	**CYNRYCHIOLAETH** - Caniateir i unrhyw faint o dîmau o pob clwb gystadlu.
3.	**CYMHWYSEDD** - Tîm o dri aelod. Dylai'r aelodau fod yn 14 mlwydd oed neu iau ar y 1af Fedi 2011 ac yn aelodau llawn o glwb sy'n gyswllt â FfCCFfI. **Bydd yn rhaid i gystadleuwyr gyflwyno eu Cardiau Aelodaeth**. Os na chyflwynir cardiau rhoddir dirwy.
4.	**IECHYD A DIOGELWCH** - Rhaid i bob cystadleuaeth ar lefel Sir gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chwrdd ag unrhyw safonau diogelwch perthnasol. Cyfrifoldeb y clwb yw cwblhau'r ffurflenni Caniatâd Rhiant i aelodau dan 18 oed.
5.	**TREFN -** Tîm o dri i ddarllen darn a ddewiswyd gan y Beirniad. Bydd angen i'r cystadleuwyr ddarllen mewn Cymraeg oddeutu un tudalen o'r llyfr a ddewiswyd. Bydd y tîmoedd yn cael gwybod enw'r llyfr a ddewiswyd 3 wythnos cyn diwrnod y gystadleuaeth. Penderfynir ar y drefn cystadlu o flaen llaw. Bydd bob tîm yn aros yn yr ystafell baratoi nes eu tro hwy i gystadlu. Bydd angen i bob aelod o'r tîm (gan gynnwys y Cadeirydd) i ddarllen darn gwahanol o'r llyfr. Bydd pob tîm yn darllen yr un darnau a'r tîmoedd eraill. Caniateir i aelodau i ddarllen y darn a ddewiswyd yn yr ystafell baratoi. Caniateir llyfrau yn yr ystafell baratoi o flaen llaw. Ni fydd hawl gan yr aelodau na'r hyfforddwyr i fod yn bresennol yn yr ystafell cystadlu cyn iddynt hwy gystadlu ond caniateir 1 hyfforddwr yn yr ystafell baratoi.
6.	**AMSERU –** Cadeirydd (agor) 2 funud Cosbau: Fe dynnir un marc ar gyfer bob hanner munud (neu ran ohono) os bydd unrhyw aelod o'r tîm yn mynd dros yr amser a ganiateir.
7.	**SYSTEM FARCIO -** **CADEIRYDD:** Cyflwyniad Agoriadol 15 **DARLLENYDD 1:** Geirio 10 Eglurder 10 Synnwyr a Mynegiant (Ystyr Ddramatig) 10 Cyfanswm 45 **DARLLENYDD 2:** Geirio 10 Eglurder 10 Synnwyr a Mynegiant (Ystyr Ddramatig) 10 Cyfanswm 30 **DARLLENYDD 3:** Geirio 10 Eglurder 10 Synnwyr a Mynegiant (Ystyr Ddramatig) 10 Cyfanswm 30 **GWAITH TÎM:** 15 Cyfanswm 120
8.	Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol. Mae gan CFfI Sir Gâr yr hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau hyn.

RHEOLAU SIARAD CYHOEDDUS IAU CYMRAEG

1.	**LLEOLIAD** - Ysgol Gynradd Nantgaredig
2.	**CYNRYCHIOLAETH** - Caniateir i unrhyw faint o dîmau o pob clwb gystadlu.
3.	**CYMHWYSEDD** - Tîm o dri aelod. Dylai'r aelodau fod yn 16 mlwydd oed neu iau ar y 1 Fedi 2011 ac yn aelodau llawn o glwb sy'n gyswllt â FfCCFfI. **Bydd yn rhaid i gystadleuwyr gyflwyno eu Cardiau Aelodaeth**. Os na chyflwynir cardiau rhoddir dirwy.
4.	**IECHYD A DIOGELWCH** - Rhaid i bob cystadleuaeth ar lefel Sir gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chwrdd ag unrhyw safonau diogelwch perthnasol. Cyfrifoldeb y clwb yw cwblhau'r ffurflenni Caniatâd Rhiant i aelodau dan 18 oed.
5.	**TREFN**- Bydd tîm yn cynnwys Cadeirydd, Siaradwr a Chynigydd y bleidlais o ddiolch. Bydd y drefn yn dilyn trefn cyfarfod arferol. Cyflwynir y Cadeirydd i'r Siaradwr pymtheg munud cyn bydd ei dîm / ei thîm (y Cadeirydd) yn cystadlu. Bydd y Siaradwr yn darparu nodiadau ysgrifenedig yn nodi'r pwnc a ddewiswyd a manylion personol (ee. Ysgol, diddordebebau arbennig, aelodaeth o CFfI, swyddi a ddaliwyd, a gweithgreddau o fewn y Clwb, ayb.) Dylid ysgrifennu'r nodiadau hyn ar y cerdyn a ddarparir a'u cyflwyno i'r Prif Stiward ar ddechrau'r gystadleuaeth ac fe fydd ar gael i'r Cadeirydd a'r beirniaid. Bydd y Siaradwr, a fydd yn westai i dîm arall, yn dewis ei b/phwnc. Yna fe fydd y Siaradwr yn ateb cwestiwn sy'n cael ei gofyn gan y Cynigydd ac yna dau gwestiwn gan y beirniaid. Bydd y Cynigydd yn eistedd yn y neuadd cystadlu. Fe fydd ef / hi yn ystod anerchiad y siaradwr yn codi ryw bwynt ac yn rhoi sylwadau, cytuno neu anghytuno ac yn gofyn un cwestiwn sy'n berthnasol i bwnc yr anerchiad. Fe fydd ef / hi yn cynnig pleidlais o ddiolch i'r Siaradwr ar ôl ymdrin gyda'r holl gwestiynau. Ni chaniateir unrhyw gyfathrebiad, yn ysgrifenedig neu ar lafar rhwng aelodau'r tîm. Caniateir i'r cystadleuwyr i gymryd nodiadau i GYFEIRIO ATYNT wrth gystadlu cyn belled bod y nodiadau hyn wedi cael eu hysgrifennu ar GERDYN POST. Fodd bynnag, cosbir cystadleuwyr am ddefnyddio nodiadau yn ormodol ac yn oramlwg. Ni chaniateir i'r tîmoedd ddefnyddio unrhyw gyfeirlyfrau na phapurau eraill tra'n cystadlu, oni bai am gymhorthion gweledol er mwyn cynorthwyo'r gynulleidfa i ddeall y pwnc dan sylw.
6.	**AMSERU -** Cadeirydd - (agor) 2 funud Siaradwr - 6 munud Cynigydd pleidlais o ddiolch (cwestiwn) – nid oes cyfyngiad amser Cynigydd pleidlais o ddiolch (diolch) - 1 munud Cosbau: Fe dynnir un marc ar gyfer bob hanner munud (neu ran ohono) os bydd unrhyw aelod o'r tîm yn mynd dros yr amser a ganiateir.
7.	**SYSTEM FARCIO –** **SIARADWR** Cyflwyno'r anerchiad a'r gallu i siarad 20 Cynnwys yr anerchiad a gwybodaeth am y pwnc 20 Ateb y cwestiynau 10 Cyfanswm 50 **CADEIRYDD** 30 **CYNIGYDD Y BLEIDLAIS O DDIOLCH** 20 CYFANSWM - 100
8.	**CYFFREDINOL** – Caniateir i gystadleuwyr i fod yn bresennol yn yr ystafell cystadlu cyn ac ar ôl cystadlu. Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol. Mae gan CFfI Sir Gâr yr hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau hyn.

ADRAN GANOL CYMRAEG – Siarad Ar ôl Cinio

1.	**LLEOLIAD** - Ysgol Gynradd Nantgaredig
2.	**CYNRYCHIOLAETH** - Caniateir i unrhyw faint o dîmau o pob clwb gystadlu.
3.	**CYMHWYSEDD** - Tîm o 3 aelod. Dylai'r aelodau fod yn 21 mlwydd oed neu iau ar y 1 Fedi 2011 ac yn aelodau llawn o glwb sy'n ymgysllltedig â FfCCFfI. **Bydd yn rhaid i gystadleuwyr gyflwyno eu Cardiau Aelodaeth**. Os na chyflwynir cardiau rhoddir dirwy.
4.	**IECHYD A DIOGELWCH** - Rhaid i bob cystadleuaeth ar lefel Sir gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chwrdd ag unrhyw safonau diogelwch perthnasol. Cyfrifoldeb y clwb yw cwblhau'r ffurflenni Caniatâd Rhiant i aelodau dan 18 oed.
5.	**TREFN -** Bydd Arweinydd y Seremoni, Siaradwr Gwadd (a fydd yn cynnig y prif lwncdestun) ac ymatebydd i'r Siaradwr Gwadd yn rhan o'r tîm. Bydd arweinydd y Seremoni yn annerch y ciniawyr ac fe fydd ef/hi yn cyflwyno'r siaradwyr yn nhrefn eu hymddangos. Bydd y timoedd yn cael eu rhannu fel bod arweinydd y seremoni, y siaradwr gwadd ar ymatebydd i'r siaradwr gwadd yn gweithredu o fewn gwahanol dîmoedd. Bydd arweinydd y seremoni o tim A yn gweithio gyda'r siaradwr gwadd o tîm B a'r ymatebydd i'r siaradwr gwadd o tîm A. Bydd yr holl dîmoedd yn cael eu hysbysebu ynglŷn â'u llwncdestun 14 diwrnod cyn y gystadleuaeth. Gall cystadleuwyr ddefnyddio nodiadau ond cosbir gorddefnydd. Bydd tîmoedd yn cael y cyfle i gwrdd er mwyn rhannu nodiadau 15 munud cyn ymddangos ar y llwyfan. Byddai'r arweinydd y seremoni yn aelod o'r mudiad sy'n cynnal y cinio ac yn (i) Croesawu aelodau (ii) Croesawu gwestai (iii) Cyflwyno'r Siaradwr Gwadd Ni fyddai'r siaradwr gwadd yn aelod o'r mudiad sy'n cynnal y cinio ac fe fydd ef/hi yn rhoi (i) Araith (ii) Galw ar y cwmni i roi llwncdestun Bydd yr Arweinydd y seremoni yn (i) Cyflwyno'r ymatebydd i'r siaradwr i ymateb i'r llwncdestun Ymatebydd i'r Siaradwr Gwadd - fel arfer byddai ef/hi yn aelod o'r mudiad sy'n cynnal y cinio ac fe fydd ef/hi yn - (i) Ymateb Arweinydd y Seremoni - (i) Dod a'r digwyddiad i ben
6.	**SYSTEM FARCIO** Cadeirydd- 40 Siaradwr- 30 Ymatebydd- 30 Cyfanswm- **100 marc** Bydd beirniaid yn ystyried gwreiddioldeb, cyflwyniad yr araith, digrifwch, amseru, clywadwyedd, gwybodaeth ynglŷn â'r testun, defnydd o nodiadau a gwisg. **Cosbir tîmoedd am ddefnyddio jôcs diflas ac iaith ddrwg.** **AMSERU** –Bydd amser yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:- Arweinydd y Seremoni *(Cyflwyniad)* 3 munud Siaradwr Gwadd 6 munud Ymatebydd i'r Siaradwr Gwadd 6 munud Arweinydd y Seremoni (Cau) 2 munud Mae'r cosbau amser yn 1 marc am bob hanner munud (neu ran ohono) dros yr amser a ganiateir gan unrhyw aelod o'r tîm.
	CYFFREDINOL Caniateir i gystadleuwyr i fod yn bresennol yn yr ystafell cystadlu cyn ac ar ôl cystadlu. Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol. Mae gan CFfI Sir Gâr yr hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau hyn.

ADRAN HŶN CYMRAEG – SEIAT HOLI

1. **LLEOLIAD** - Ysgol Gynradd Nantgaredig

2. **CYNRYCHIOLAETH** - Caniateir i unrhyw faint o dîmau o pob clwb gystadlu.

3. **CYMHWYSEDD** - Tîm o bedwar aelod. Dylai'r aelodau fod yn 26 mlwydd oed neu iau ar y 1 Fedi 2011 ac yn aelodau llawn o glwb sy'n gyswllt â FfCCFfI.
Bydd yn rhaid i gystadleuwyr gyflwyno eu Cardiau Aelodaeth. Os na chyflwynir cardiau rhoddir dirwy.

4. **IECHYD A DIOGELWCH** - Rhaid i bob cystadleuaeth ar lefel Sir gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chwrdd ag unrhyw safonau diogelwch perthnasol. Cyfrifoldeb y clwb yw cwblhau'r ffurflenni Caniatâd Rhiant i aelodau dan 18 oed.

5. **TREFN** – Tîmoedd i gynnwys Cadeirydd a phanel o dri aelod. Tynnir enwau i benderfynu ar y drefn ymddangos o flaen llaw.

20 munud cyn cystadlu, bydd nifer o amlenni wedi eu selio yn cael eu rhoi i'r Cadeirydd. Bydd ef / hi yn dewis un, a fydd yn cynnwys chwe phwnc trafod. Bydd tri o'r rhain o natur cyffredinol a tri yn ymwneud â materion gwledig. Bydd rhaid i'r Cadeirydd ddewis tri o'r rhain i'w trafod gan y tîm. Mae'n rhaid dewis o leiaf un o bob adran. Ni fydd y Cadeirydd yn cael cyfathrebu gyda'r tîm ynghylch y cwestiynau mae ef / hi wedi eu dewis i'w trafod. Ni chaniateir cyflwyno unrhyw gyfathrebiad ysgrifenedig ar y pynciau i'w trafod i'r panel. Y gosb am hyn bydd gwaharddiad ar unwaith o'r gystadleuaeth.

Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gyflwyno'r panel i'r gynulleidfa, am ofyn y cwestiynau i'r panel, am grynhoi'r atebion, dod a'r cyfarfod i ben, amseru, rheoli'r panel ac am roi sylw i bob cwestiwn..

Dylid ymdrin â'r gystadleuaeth yn yr un modd a chyfarfod ffurfiol.

Caniateir i'r cystadleuwyr i gymryd nodiadau i GYFEIRIO ATYNT tra'n cystadlu, fodd bynnag, cosbir cystadleuwyr am ddefnyddio nodiadau yn ormodol ac yn oramlwg. Ni chaniateir i'r tîmoedd ddefnyddio unrhyw gyfeirlyfrau na phapurau eraill tra'n cystadlu.

6. **AMSERU** - Caniateir 20 munud i bob tîm o ddechrau cyflwyniad y Cadeirydd a disgwylir i'r tîmau gadw at yr amser a nodir.
Cosbau: Fe dynnir un marc ar gyfer bob hanner munud (neu ran ohono) sydd dros yr amser a ganiateir.

7. **SYSTEM FARCIO** -

CADEIRYDD

Cyflwyniad agoriadol a delio a'r cwestiynnau	10	
Delio gyda'r panel gan gynnwys amseru	15	
Crynhoi trafodaethau	10	
Cau'r cyfarfod	5	
Gallu ac arddull	10	**Cyfanswm- <u>50</u>**

PANEL-POB CWESTIWN

Ansawdd, perthnasedd ac ystod y drafodaeth	20	
Cydweithrediad a gwaith tîm	15	
Cyfanswm	<u>35</u>	**35 x 3 = 105**

Panel – CYFFREDINOL

Ymddygiad a steil cyffredinol	15	
Lleisio	10	
Argraff gyffredinol y tîm	20	**Cyfanswm- <u>45</u>**
		CYFANSWM- <u>200</u>

8. **CYFFREDINOL** – Caniateir i gystadleuwyr i fod yn bresennol yn yr ystafell cystadlu cyn ac ar ôl cystadlu.
Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol.
Mae gan CFfI Sir Gâr yr hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau hyn.

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gaerfyrddin

Ffurflen Gais Siarad Cyhoeddus Cymraeg 2012

CLWB: _____

Darllen Cymraeg

Cadeirydd/ Darllenydd _____

Darllenydd _____

Darllenydd _____

Adran Iau Cymraeg

Siaradwr: _____

Cadeirydd: _____

Cynigydd: _____

Adran Ganol- Cymraeg (Siarad Ar ôl Cinio)

Cadeirydd: _____

Siaradwr _____

Ymatebydd _____

Adran Hŷn- (Seiat Holi)

Cadeirydd: _____

Panel _____

_____

_____